

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Dyddiad Cyhoeddi: 9 Hydref 2015



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**STATWS: GWEITHREDU A GWYBODAETH**

**CATEGORI: ANSAWDD A DIOGELWCH**

**Teitl: TECHNEG ASEPTIG DI-GYFFWRDD (ANTT): DIWEDDARIAD AR WEITHREDU DULL SAFONEDIG CENEDLAETHOL**

**Dyddiad dod i ben/Adolygu: Medi 2016**

**I'w weithredu gan y Bwrdd:**

Cadeiryddion  
Prif Weithredwyr  
Ysgrifenyddion Bwrdd  
Ysgrifennydd Grŵp Ysgrifennydd y Bwrdd  
Cyfarwyddwyr Nyrsio  
Cyfarwyddwyr Meddygol  
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd  
Meddygon a Nyrsys Rheoli Heintiau  
Prif Fferyllwyr Ysbyty  
Arweinwyr ac Ymgynghorwyr Rheoli Clefydau  
Trosglwyddadwy Rhaglenni HCAI a AMR Iechyd  
Cyhoeddus Cymru  
Galw Iechyd Cymru  
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i'w  
ddosbarthu i bractisau meddygon teulu,  
fferyllfeydd cymunedol a phractisau deintyddol  
cyffredinol  
Ymddiriedolaeth Ambiwllans

**I'w weithredu gan Lywodraeth Cymru: (neu er gwybodaeth)**

CC/Prif Weithredwr GIG Cymru  
Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru  
Arweinwyr Proffesiynol a Pholisi  
Tîm Gweithrediadau AIGC  
Tîm Cyfathrebu AIGC  
Tîm Digidol AIGC

**Gweithredu yn ofynnol erbyn:**  
Gweler paragraff 7

**Anfonwyd gan:** Jean White, Prif Swyddog Nyrsio/Ruth Hussey, y Prif Swyddog Meddygol

**Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:**

Rhian Pound-McCarthy, Y Gangen Polisi Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd a Diogelwch Gwaed  
[rhian.pound-mccarthy@wales.gsi.gov.uk](mailto:rhian.pound-mccarthy@wales.gsi.gov.uk) Ffôn: 029 2082 6440

**Dogfen(nau) amgaeedig: Dim**

1. Fel yr amlygwyd yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2015 (WHC/2015/026), mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn hwyluso'r broses o gyflwyno dull safonedig o hyfforddi staff i ddefnyddio'r dechneg aseptig (techneg aseptig di-gyffwrdd - ANTT), a'i rhoi ar waith, ar gyfer triniaethau clinigol ar draws Cymru.
2. Mae defnyddio techneg aseptig dda yn ffactor pwysig wrth atal heintiau sy'n gysylltiedig â dyfeisiau. Bydd targedau cenedlaethol newydd ar gyfer lleihau achosion o facteremia sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn cael eu cyhoeddi yn fuan, a bydd atal heintiau sy'n gysylltiedig â dyfeisiau drwy gydymffurfio â ANTT yn helpu sefydliadau i leihau nifer yr achosion er mwyn cyrraedd y targedau angenrheidiol. Yn y cyd-destun hwn, gall Prif Weithredwyr ddisgwyl cael eu dwyn i gyfrif am sicrhau bod y broses o gyflwyno dull ANTT yn cael ei hwyluso'n llawn ac yn effeithiol yn eu sefydliadau.
3. Ar y dechrau, roedd ffocws ar y broses o gyflwyno'r dull yn y sefydliadau gofal eilaidd drwy dri digwyddiad *Hyfforddi'r Hyfforddwr* yn Abertawe, Llanelwy a Chaerdydd yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2015. Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnwys mwy na 150 o gynrychiolwyr o fyrdau iechyd, Ymddiriedolaethau'r GIG a gofal sylfaenol, ynghyd â staff academaidd o Brifysgolion Bangor, Caerdydd, De Cymru ac Abertawe sy'n darparu hyfforddiant cyn-gofrestru i fyfyrwyr.
4. Yn dilyn llwyddiant y digwyddiadau hyn, mae'n bwysig bod sefydliadau gofal iechyd yn cyflwyno hyfforddiant ANTT i holl staff cymwys y sefydliad. Dylai swyddog arweiniol ANTT gael ei enwebu i arwain yn lleol ar gyflwyno'r dull a chymryd rhan mewn Grŵp Llywio a arweinir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a fydd yn eu galluogi i rannu arferion gorau a chynghori ar ddatblygiadau yn y dyfodol, megis cyflwyno mewn sefydliadau gofal sylfaenol.
5. Y dasg gyntaf ym mhob sefydliad yw sicrhau bod archwiliadau sylfaenol o'r arferion aseptig cyfredol yn cael eu cynnal. Rhoddwyd manylion yr archwiliadau hyn yn y digwyddiadau hyfforddi. Maent yn hanfodol i sefydliadau ar gyfer gweld ym mha feysydd y mae angen hyfforddiant. Mae rhai sefydliadau wedi cynnal archwiliadau mewn rhai meysydd a chyflwyno eu canlyniadau i'r Gymdeithas dros Arferion Aseptig Diogel (ASAP) ond mae angen i ragor ohonynt wneud hynny. Bydd y canlyniadau yn eu crynswth yn cael eu dychwelyd ar ôl i ddigon o archwiliadau gael eu casglu.
6. Gall staff y GIG gael mynediad i'r offer archwilio, yn ogystal â gwybodaeth arall am ANTT, o safle mewnwyd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn: <http://howis.wales.nhs.uk/sitesplus/888/antt>
7. Gall staff academaidd gael adnoddau ANTT drwy wefan fewnol Iechyd Cyhoeddus Cymru: [www.publichealthwales.org/antt](http://www.publichealthwales.org/antt). Mae angen

cyfrinair i gael mynediad i'r adnoddau hyn ar y rhyngwrwd, a dylai staff academaidd gysylltu â Mari Morgan ([mari.morgan@wales.nhs.uk](mailto:mari.morgan@wales.nhs.uk)) neu Karen Jones ([karen.jones42@wales.nhs.uk](mailto:karen.jones42@wales.nhs.uk)) am fanylion y cyfrineiriau.

8. Gall staff y GIG yn ogystal â staff academaidd gael mynediad i raglen e-ddysgu ANTT drwy Blatfform Dysgu GIG Cymru, sydd ar gael drwy: <https://learning.wales.nhs.uk/>

Mae'r cwrs i'w gael o dan y pennawd 'Health and Safety', a hefyd 'Patient Care'. Bydd angen i ddefnyddwyr greu cyfrif i ddefnyddio'r platfform dysgu os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny.

9. Ar gyfer byrddau iechyd/yymddiriedolaethau lle nad yw'r staff wedi cael asesiad cymhwysedd ANTT ffurfiol, mae digwyddiad ychwanegol yn cael ei gynllunio i ddarparu'r asesiadau hyn. Bydd disgwyl bod staff a fydd yn dod i'r digwyddiad hwn eisoes wedi cwblhau'r pecyn e-ddysgu a'u bod yn gyfarwydd â'r adnoddau cyn cymryd rhan. Yna, bydd disgwyl iddynt gynnal yr asesiadau cymhwysedd hyn yn eu sefydliadau. Bydd rhagor o wybodaeth am y digwyddiad hwn yn cael ei ddarparu i chi yn uniongyrchol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.